OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 1059 (Cy. 132)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483, yr A489, yr A470 a'r A44 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Powys a Cheredigion) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Ebrill 2012* |
| *Yn dod i rym* | *13 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A489, yr A470 a'r A44) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd yn codi o ganlyniad i gludo llwyth anarferol na ellir ei rannu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483, yr A489, yr A470 a'r A44 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Powys a Cheredigion) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwyth anarferol na ellir ei rannu sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" *("transportation period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 07:00 o'r gloch ar 13 Ebrill 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwyth anarferol na ellir ei rannu wedi ei gwblhau.

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A483, yr A489, yr A470 a’r A44 yn Siroedd Powys a Cheredigion a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “person esempt” (“*exempted person*”) yw unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau brys neu sy'n gysylltiedig â’r gwaith o gludo'r llwyth anarferol na ellir ei rannu;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, reidio unrhyw feic pedal, na pheri na chaniatáu iddo gael ei reidio ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, ac eithrio person esempt, gerdded, yn ystod cyfnod y cludo, ar hyd y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd yr heddlu neu’r hebryngwyr a gyflogir yn unol â symud y llwyth anarferol na ellir ei rannu yn hysbysu bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Ebrill 2012

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr yn Llanymynech, Powys i'w chyffordd â chefnffordd yr A489 yn y Drenewydd, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A483 yn y Drenewydd, Powys i'w chyffordd â chefnffordd Caersŵs – Machynlleth yr A470 yng Nghaersŵs, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 Caersŵs – Machynlleth yng Nghaersŵs, Powys i'w chyffordd â chefnffordd Caerdydd – Llangurig yr A470 yn Llangurig, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 yn Llangurig, Powys i'w chyffordd â ffordd sirol y B4343 ger Ponterwyd, Ceredigion.